

Cymdeithas y Cymod yng Nghymru

Gwasanaeth Sul Heddwch
Medi 23ain. 2012.



Llais o Jerwsalem

*Paratowyd y Gwasanaeth hwn ar ran Cymdeithas y Cymod
gan Pryderi Llwyd Jones*

Daw y gweddiau i gyd o gyfrol newydd

Gweddiau Heddwch a Chyfiawnder
(Cyhoeddiadau'r Gair. Awst 2012)

gan Guto ap Gwynfor, Cadeirydd Cymdeithas y Cymod

Mae rhyddid, wrth gwrs, i newid neu i addasu y gwasanaeth hwn ar gyfer yr amgylchiadau lleol, ac fe ellid ei ddefnyddio ar unrhyw Sul, wrth gwrs. Ar wahân i un emyn, nid yw'r emynau eraill wedi eu dewis, dim ond nodi eu lle yn y gwasanaeth.

Mae Hydref 6-13 yn Wythnos Un Byd ac yn gyfle arall i wneud defnydd o'r gwasanaeth.

Arweinydd 1

Gweddïwn.

Arglwydd pob goleuni, llewyrcha arnom ni.
Arglwydd pob tangnefedd, ymdawela ni,
Arglwydd pob cadernid, bydd yn graig dan ein traed,
wrth i ni, yn enw Dy Fab, Iesu, blygu'n wylaidd
er mwyn darganfod ffordd dy heddwch Di
i'n bywyd ac i'n byd. Amen.

Emyn 1.

Darlleniad **Eseia 2. 1-4**

Arweinydd 1

Yr ydym yn dechrau'r Gwasanaeth Heddwch hwn gyda geiriau cyfarwydd Eseia a geiriau sydd i'w gweld hefyd yn Micha 4.1-4, ond gyda dau bwyslais ychwanegol gan Micha ac fe fyddwn yn sôn am hynny yn nes ymlaen. Yr oedd y ddau broffwyd yn byw yn yr un cyfnod. Y geiriau yma fydd sylfaen ein gwasanaeth ac er eu bod yn mynd a ni yn ôl i'r wythfed ganrif cyn Crist mae'n anodd meddwl am eiriau mwy cyfoes. Dyna'r gwirionedd am broffwyd – mae'n medru dehongli a threiddio i amgylchiadau ei oes, yn gweld arwyddion ei amserau i'r fath raddau fel bod ganddo neges i **bob** oes. Heb fanylu yn ormodol dyma ffeithiau y dylem eu cofio :

Arweinydd 2

Yn Jerwsalem yr oedd yn byw ac yn Jerwsalem y proffwydodd am dros 50 mlynedd o 740-700 – sôn am y cyfnod hwnnw mae Eseia penodau 1-39 ; yr oedd felly yn byw yng nghanol berw gwleidyddol ac argyfwng ei genedl ac yn arbennig pan oedd Asyria yn rym oedd yn tra arglwyddiaethu yn y Dwyrain Canol a phan oedd Brenin Israel a Brenin Damascus yn ceisio perswadio Ahas, Brenin Jiwda, i gynghreirio â hwynt yn erbyn Asyria; yr oedd felly yn adnabod coridorau grym ei wlad a'i bobl, a'i fys ar byls gwleidyddiaeth ei ddydd ac yn lais a oedd i'w glywed yn glir ar y cyfryngau ac yn cael ei ddyfynnu yn y wasg.

Arweinydd 1

Nid yw'n anodd felly clustfeinio i glywed ei lais yn Syria, Aifft, Israel, Palesteina, Affganistan, Irac ein dyddiau ni ac yn y dylanwadau a'r grymoedd byd-eang sydd yn rhan o gymhlethdod cyfoes byd Eseia. Ond fe wyddai - a dyma'r **peth cyntaf** i'w bwysleisio yn ein gwasanaeth heddwch - fod presenoldeb Duw yng nghanol y ddinas ac arwydd o hynny oedd y Deml. Dyma a wnâi y ddinas (mewn enw beth bynnag) yn ddinas sanctaidd a'r wlad yn wlad sanctaidd a'r bobl yn bobl sanctaidd yr Arglwydd. Yn y deml hon y cafodd ei alwad - *Wele fi, anfon fi* - ac wrth wrando ar ei eiriau ychydig funudau yn ol, fe wyddom ein bod yn gwrando ar **weddi** oherwydd wedi blynyddoedd maith o lefaru ac ymgyrchu (ac mae'r geiriau o bosibl yn perthyn i gyfnod diweddar yn ei fywyd) y mae dyhead, hiraeth, gobaith mai *rhyw ddydd* - yn y dyddiau diwethaf yw ei eiriau - fe fydd y cenhedloedd *yn* rhodio yn ffordd yr Arglwydd.

Arweinydd 2

Ac yn nhraddodiad fywiol Eseia ni allwn ninnau lai na gweddïo yn ddiflino am i *shalom* Duw fod yn gyfrwng i ddwyn y byd i fynydd tŷ yr Arglwydd, sef i'r man y bydd gweledigaeth a gweddi Eseia yn weddi i'r holl fyd, i'r holl bobloedd, ac i bob eglwys a chynulleidfa. Dyma felly y gyntaf o nifer o weddïau yn yr oedfa hon - gweddïau sydd wedi eu rhoi i ni i'w rhannu drwy byd. Daw'r gyntaf o daflen gweddïo am undod yn 1997.

Gweddi 1

O'r dyfnder y llefwn arnat ti, o Dduw.
Dduw, clyw ein llef;
Llef y rhai a erlidir yn dy enw di;
Llef y rhai sy'n dioddef oherwydd rhyfel;
Llef y rhai sy'n newynog a sychedig;
yn unig neu ar yr ymylon;
Llef y gwŷr, y gwragedd a'r plant sydd wedi cael eu camdrin.
Yr ydym i gyd yn rhan o'r llef yn ogystal â'r euogrwydd
oherwydd ein bod i gyd wedi pechu yn dy erbyn.
Rhyddha ni i dderbyn dy gariad cyflawn
a'i rannu gyda'r rhai sy'n galw arnat.

Amen.

Emyn 2

Arweinydd 2

Fe wyddom fod y geiriau hyn gan Eseia i'w gweld mewn man canolog yng Nghanolfan y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd. Maent yn eiriau sydd wedi cyrraedd ar draws y canrifoedd fel arweiniad i fyd a rwygwyd gan ddau Ryfel Byd. Un canlyniad i'r lladd a'r dinistr erchyll yn y rhyfeloedd oedd sefydlu y Cenhedloedd Unedig yn 1948 ond ar Hydref 24, 1945 y cyhoeddwyd yn ffurfiol Siarter y Cenhedloedd Unedig. Dyma'r erthygl gyntaf sy'n sôn am bwrpas ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig :

Darllenydd 1

I gynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol ac i'r diben hwnnw : i gymeryd camau gyda'n gilydd i warchod ac i ddileu y bygythiadau i heddwch, ac i atal gweithredoedd bygythiol sy'n peryglu neu yn torri amodau heddwch, ac i greu – drwy ddulliau heddychol ac yn unol ag egwyddorion cyfiawnder a chyfraith ryngwladol – cytundebau mewn gwrthdaro rhyngwladol neu unrhyw sefyllfa all arwain i darfu ar heddwch;

i ddatblygu perthynas gyfeillgar rhwng cenhedloedd ac wedi ei sylfaenu ar barch tuag at hawliau dynol, hawl pobloedd i benderfynu eu dyfodol eu hunain, ac i gymeryd camau angenrheidiol i gryfhau heddwch byd eang;

i gael cydweithrediad rhyngwladol i ddatrys problemau o natur economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu ddyngarol, ac i hyrwyddo hawliau pob un mewn perthynas a hil, rhyw, iaith neu grefydd;

i fod yn gyfrwng i ddwyn harmoni trwy weithredoedd y cenhedloedd i gyflawni y bwriadau hyn.

Arweinydd 1

Maent yn eiriau sy'n deilwng o Eseia ac mewn un ystyr mae'r Cenhedloedd Unedig wedi troi gobaith a gweddi Eseia yn ffaith. Ond yr oedd gweledigaeth Eseia wedi cael ei chadw yn fyw ar draws y canrifoedd ac nid yn lleiaf gan yr Apostol Heddwch ei hun, sef Henry Richard, Tregaron. I ddathlu dau gan mlwyddiant ei eni eleni fe gafwyd, nid yn unig ddigwyddiadau yn Nhregaron ac yn Llundain i gofio ei gyfraniad, ond fe gafwyd hefyd gofiant Saesneg *Henry Richard, Apostol of Peace and Welsh Patriot* gan Gwyn Griffiths ac mae ein dyled yn fawr iddo am gofiant mor ardderchog a theilwng i ŵr a oedd o flaen ei oes ac yn olyniaeth anrhydeddus Eseia. Nid dyma'r lle i fanylu, ond dyma'r lle i'n hatgoffa, fod yr egwyddor o 'ddod ynghyd' yn argyhoeddiad dwfn iawn gan Henry Richard – y cenhedloedd yn siarad gyda'i gilydd, yw darlun Eseia 'Dewch..awn gyda'n gilydd...

Llefarydd 2

Daeth penllanw ei yrfa fel Aelod Seneddol tros Ferthyr Tydfil pan gyflwynodd i'r Ty Cyffredin yng Nghorffennaf 1873 ei gynnig i sefydlu yr egwyddor o **Cyflafareddiad Rhyngwladol** (*International Arbitration* yw'r term). Ei nôd oedd sefydlu Llys Rhyngwladol y gallai'r cenhedloedd apelio ato yn hytrach na rhuthro i ryfela a'i gilydd. O safbwynt y gwastraff arian ac adnoddau, y creulondeb a'r dinistr, y lladd a'r ehangu ar y fasnach arfau ac imperialaeth dinistriol ei ganrif, nid chredai Henry Richard nad oedd modd o gwbl i gysoni Efengyl Crist â rhyfela. Meddai yn ei araith enwog wrth gyflwyno ei fesur :

Llefarydd 3

Ni allaf feddwol am unrhyw reswm pan na all cenhedloedd fel Lloegr, Ffrainc a'r Almaen uno dan un gyfraith er mwyn setlo anghydfod. Fe ddylai pob llywodraeth ddefnyddio eu cyfreithwyr a'u bar-gyfreithwyr gorau i greu Llys Cyflafareddiad, yn annibynnol o ystyriaethau gwleidyddol. Bydded i'r cenhedloedd sydd yn anghytuno ac yn gwrthdaro ymofyn cyngor; bydded iddynt gasglu tystiolaeth; a bydded trafod ar sail rheswm a chyfiawnder nid ar sail rhyfela gwaedlyd. Nid oes a wnelo hyn ddim â phlaid wleidyddol...yr wyf yn apelio arnoch ac ar fy nghyd Gymru yn y Tŷ hwn, i ddileu unwaith ac am byth uffern rhyfel.

Arweinydd 1

A wireddwyd gweddi Eseia ?

A wireddwyd gobaith Henry Richard ?

Arweinydd 2

A yw'r Cenhedloedd Unedig yn gwireddu ei hegwyddorion ac yn cyflawni ei nod ?

Arweinydd 1

Yn 2012 dagrau pethau yw cydnabod fod hyd yn oed byd gyda Cenhedloedd Unedig yn ystyried rhyfela yn ffordd dderbyniol, gyfreithlon o ddatrys problemau er cydnabod ei bod yn ffordd erchyll a barbaraid. Ystyrir grym militaraid, rhyfela a datblygu arfau yn rhan ganolog ac angenrheidiol o fywyd y byd.

Arweinydd 2

Yn nyddiau cynnar y Cenhedloedd Unedig yr oedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn teithio'r gwledydd a chyfarfod yr arweinyddion oedd yn paratoi i ryfela neu yng nghanol rhyfela â gwlad arall. Teithiwr diflino er mwyn heddwch oedd Dag Hammarskjöld - mynnu dod 'wyneb yn wyneb' i drafod o gwmpas y bwrdd. Nid

yw hynny yn digwydd bellach. Enghraifft ddiweddar o hyn yw mai anfon *cyn ysgrifennydd* y CU i Syria a wnaethpwyd a hynny yng nghanol argyfwng mawr nid i un gwlad, ond i ranbarth gyfan. Ni aeth neb i siarad â Gadaffi yn Lybia chwaith, pan oedd yr ymladd ar ei waethaf, nac i geisio dod a'r Chwyldroadwyr a'r Arlywydd at ei gilydd.

Arweinydd 1

Biwrocratiaeth sy'n llywio'r CU bellach; mae'n orlwythog o adrannau a gweithgareddau clodwiw o bob math; mae'r grym a'r penderfyniadau yn nwylo y cenhedloedd cryfaf o safbwynt grym gwleidyddol a militaraid. Oherwydd hyn i gyd mae'n methu yn ei bwriad cyntaf a'r bwriad gwreiddiol. Anodd meddwl y byddai Eiseia na Henry Richard chwaith yn credu – er nad oes ryfel byd arall wedi bod – fod y Cenhedloedd Unedig yn cyflawni'r gobaith a'r weledigaeth. Gobaith heb ei gwireddu yw o hyd.

Gweddi 2

Arglwydd Dduw hollalluog,
maddau dy eglwys

ei chyfoeth ymhlith y tlawd,
ei hofn ymhlith yr anghyfiawn,
ei llwfrdra ymhlith y gorthrymedig,

maddau i ni, dy blant,

ein diffyg hyder ynot,
ein diffyg gobaith o'th deyrnasiad,
ein diffyg ffydd o'th bresenoldeb,
ein diffyg ymddiriedaeth yn dy drugaredd.

Adfer ni i'th gyfamod

gyda'th bobl;
arwain ni i wir edifeirwch;
dysg ni i dderbyn aberth Crist;
gwna ni'n gryf drwy gysur dy Ysbryd Glân.

Tor ni yn ein balchder,

Cod ni yn ein gwendid,

Cywilyddia ni pan fyddwn yn ymddiried ynom ein hunain,

Enwa ni pan fyddwn wedi colli'n hunain;

Drwy Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen

Arweinydd 2

Yr oedd adlais yn y weddi yna - a ddaeth o Gyngor Eglwysi'r Byd - o'r brotest oedd yn Eseia - yng nghanol y deml, yn nghanol ei bobl ac o flaen y Brenin yr oedd Eseia yn codi ei lais mewn protest yn erbyn cyfundrefn oedd yn anghofio'r tlawd a'r diamddiffyn ac eto yn ymelwa ar draul eraill. Mae'r Cristion yn nhraddodiad Eseia - ni all beidio protestio wyneb yn wyneb ag anghyfiawnder a gormes. Dyna pam, wrth gwrs, fod gweledigaeth a neges Eseia i'w chlywed yn gliriach ym mudiadau ymgyrchu a phrotest nag mewn pleidiau gwleidyddol. Ond yn fwy na dim, i Eseia, protest yn enw Duw ydoedd oherwydd fod ei bobl honedig ei hun yn anghofio yn llwyr y cyfamod a oedd yn sylfaen ei bywyd. Yn y pendraw yn erbyn Duw y mae'r drosedd. Mae yna lawer o emynau yn adran **Cymdeithas a Byd** yn Caneuon Ffydd yn nhraddodiad dicter cyfiawn Eseia - a Duw.

Emyn 3 841

Arweinydd 1

Y mae yna fudiad o'r enw *Swords into ploughshares* sydd wedi bod yn torri i mewn i safleoedd ple mae awyrennau rhyfel neu arfau niwclear yn cael eu cadw, er mwyn tynnu sylw at y ffaith y *gellir* troi 'cleddyfau'n geibiau'. Nid breuddwydiwr nad oedd yn perthyn i'r 'real world' (fel y dywedir yn aml heddiw) oedd Eseia, ond gŵr a gredai yn angerddol y gellid ac y dylid ddefnyddio adnoddau, llafur, arian, datblygiadau a chynlluniau nid i baratoi at ryfela ond i greu byd o heddwch a chyfiawnder ple all y cenhedloedd fyw'n gytûn ac mewn diogelwch. Mae gweledigaeth Eseia yn un ymarferol. Cafwyd enghraifft o hyn yn mis Mehefin eleni.

Arweinydd 2

Fe fu Paul Murphy (AS Torfaen) yn Ysgrifennydd Gogledd Iwerddon yn y Llywodraeth Lafur yn dilyn etholiad 1997. Y mae ei wreiddiau yn y Gogledd ac mae'n aelod o'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Drannoeth y diwrnod pan ysgydwodd Martin MacGuinness law â'r Frenhines (Mehefin 27ain) meddai Paul Murphy :

Llefarydd 1

Beth sydd wedi digwydd ? Fe all trafodaethau sydd yn dangos parch tuag at y naill a'r llall dorri cadwyni rhagfarn, ofn ac amheuan sydd wedi dal Gogledd Iwerddon yn ol gyhyd....Y mae cydnabyddiaeth gyffredinol bellach fod trais, fel ffordd i bawb yng Ngogledd Iwerddon wireddu eu gobeithion gwahanol, yn perthyn i'r gorffennol... ('way past its sell-by date', meddai) Mae pawb, ar wahân i ambell droseddwr di-gydwylbod a chaled, yn gwybod mai ffordd proses wleidyddol yw'r unig ffordd ffordd ymlaen, ac mai rhywbeth i adeiladu arno, nid i ddal gafael arno, yw'r gorffennol.

Arweinydd 1

Mae holl fywyd Eseia yn dweud hynny hefyd. Daw geiriau cân enwog Bob Dylan yn y chwedegau i'r côf: *When will they ever learn ?* Mae'r cwestiwn yng ngeiriau Eseia. *Rhyw ddydd*. A oedd raid i'r cannoedd farw yng Ngogledd Iwerddon ? A oedd raid i'r miloedd farw yn Affganistan, Syria ac Irac ? A yw raid iddynt farw o hyd ? Gwrandewch i ni wrando ar eiriau eraill gan Eseia a Micha sydd sydd yn gri o galon Duw am ei bod yn gri o galon y byd.

Y geiriau sy'n dilyn pob yn ail rhwng Llefarydd 1 a 2

Disgwylodd gael barn, ond cafodd drais

Y rhai sy'n trefnu gormes yn ddi-baid

Fe drig y blaidd gyda'r oed

Ni wnânt ddrwg na difrod

Dônt i Seion dan ganu

Bydd gofid a griddfan yn ffoi

Wrth ddychwelyd a bod yn dawel yn byddwch gadwedig

Arglwydd ,Ti sy'n trefnu heddwch i ni

Bydd cyfiawnder yn creu heddwch....

...a'i effeithiau yn llonyddwch a diogelwch am byth

A geiriau Micha.....

bydd pob dyn yn eistedd dan ei ffigysbren heb neb i'w ddychryn

Dywedeodd wrthyt ddyn beth sydd dda....

...a'r hyn a gais yr Arglwydd gennyt...

...gwneud beth sy'n iawn, caru ffyddlondeb...

..a rhodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.

Gweddi 3

O Dduw, rwyt ti yn ochri gyda cyfiawnder
ac yr wyt yn galw ar dy bobl i fod ar yr un ochr.
Pan fo pobl yn cael eu gyrru oddi ar dir amaethyddol da
er mwyn i'r ychydig allu gwneud elw mawr,
pan fo plant yn gweithio mewn ffatrioedd am ychydig geiniogau,
pan fo gwragedd yn dinistrio'u bywydau er mwyn bwyda'r teulu,
nid ym myd y gorffennol ond y byd heddiw,
Arglwydd trugarha wrthym,
Crist trugarha wrthym.
Dduw, maddau i ni am elwa ar draul dioddefaint eraill,
atgoffa ni fod gennym rym yn ein dewisiadau
os y gweithredwn gyda'n gilydd.
Gad i ni ddewis cyfiawnder,
yn ein gwleidyddiaeth, yn ein heconomi, yn ein heglwysi.

Cyfiawnder, yn dechrau yn y man lle rydym ... *Cymuned Iona, Yr Alban.*

Emyn 4 857

Dy dangnefedd dyro i'n daear... i'w ganu deirgwaith yn ystod y munudau nesaf yn ddi-gyfeiliant a'r gynulleidfa yn eistedd.

Arweinydd 1

Mae rhywbeth arall i'w gofio am Eseia. Yng nghanol pob chwalfa a dinistr – ac fe welodd ei annwyl ddinas a'i annwyl deml yn cael ei meddiannu gan Asyria - fe wyddai fod gwaeth i ddod. Fe gollodd yr Iddewon popeth ac fe aeth y genedl yn alltud i Fabydon. Fe gollwyd popeth, do – ond nid gobaith. Fe alwodd Eseia ei fab yn *Shear Jasub* ac ystyr yr enw oedd ac yw 'y gweddill a ddychwelant.' Ac er na welodd Eseia hynny chwaith – dyna ddigwyddodd. Ond ni bylodd ei gred fod y cyfan yn nwylo Duw a bod y Duw hwnnw yn ffyddlon a chyfiawn, hyd yn oed pan mae ei bobl yn anffyddlon ac anghyfiawn. Ond fe wnaeth Eseia fwy nag enwi ei fab yn arwydd o obaith.

Arweinydd 2

Yr Eseia hwn a lefarodd y geiriau

Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd..fe'i gelwir yn Gynghorwr rhyfeddol...Tywysog heddychlon...ni bydd diweddd ar gynnydd ei lywodraeth nac ar ei heddwch...i'w sefydlu'n gadarn â barn a chyfiawnder.

Dy dangnefedd... 857

Arweinydd 1

Does ryfedd fod y proffwyd hwn wedi cael dylanwad mor fawr ar Iesu o Nasareth; does ryfedd fod adlais o eiriau Eiseia i'w clywed yn Iesu

Llefarydd 2

Geiriau sydd wedi cael dylanwad ar bobl y ffordd ddi-drais o Ffransis o Asisi i Ghandi, o Martin Luther King i Aung San Sui Kyi.

Darllen y Gwynfydau (Mathew 5)

Arweinydd 1

Ond yn fwy hyd yn oed na hynny. Dyma'r ffordd ddi-drais a gerddodd Iesu o Fethlehem i'r groes, yn ffyddlon, ddi-wyro, aberthol. Gwasanaeth Heddwch yw cael ein galw i ddilyn yr Iesu hwn ar y ffordd hon yn y byd treisgar hwn.

Myfyrdod

Awgrymwn fel myfyrdod bod nifer o aelodau'r eglwys/gynulleidfa yn cymeryd 4 o'r gwynfydau ac ar ôl darllen yr adnod yn tynnu sylw at rai o ddigwyddiadau sydd yn y newyddion yn lleol neu yn fyd-eang. Y mae rhan gyntaf y myfyrdod yn cael ei awgrymu yma, ond fe fydd yn rhaid i ail ran y myfyrdod gael eich ychwanegu i adlewyrchu newyddion y dydd. Fe allai hyn gael ei addasu gan y 'pregethwr' wrth gwrs, neu gwahodd pedwar gwahanol i gyflwyno'r gwynfydau yn eu tro.

Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd. Mor wahanol yw'r ysbryd y mae'r geiriau yma yn gyfeirio ato – ysbryd gwylaidd y rhai sydd yn ymwybodol o'u hangen a'u methiannau – i'r hysbryd sydd mor ymosodol a haerllug ; ysbryd y rhai sydd yn mynnu mae hwy sydd yn iawn ac nad oes dim gwyleidd-dra yn agos ar eu gyfyl. Mae i'w weld yn yr yr herio a'r dicter sydd yn medru troi yn drais...fe welsom hyn yn ddiweddar...

Gwyn eu byd y rhai syd yn galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.... Mae dagrau'r mamau, mae galar cymunedau, mae ochenaid y bobol wrth ddilyn gorymdaith yr angladd unwaith eto yn ein hatgoffa fod y brwydro am 'fuddugoliaeth' yn arwain yn ddieithriad i alar a thor calon. Mae'r galar nid yn unig yn alar personol ond mae'n alar cymunedau a dynoliaeth fod dynion yn parhau i ladd cyd-ddyn .Mae'n alar dwfn am fethiant, am y tywyllwch sydd ynom, am bechod sy'n dinistrio....fel yn.....

Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw yn feibion Duw. Mae geiriau Waldo Williams wedi gwneud y 'tangnefeddwyr' yn annwyl iawn yn ein golwg fel cenedl, yn enwedig gan mai sôn am dad a mam y mae Waldo. Ond bywyd caled a gafodd Waldo'r tangnefeddwr. Bywyd anodd sydd wedi bod y

dangnefeddwyr erioed, sef y rhai sydd nid yn unig yn sôn am heddwch, yn gweddïo am heddwch neu yn dymuno heddwch, ond y rhai sy'n gweithredu, yn creu, yn ymgyrchu ac yn ymwrthod yn llwyr a dulliau trais a gormes. Diolch am fywyd y tangnefeddwyr yn ein byd heddiw, fel.....

Gwyn eu byd y rhai a a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd. Mae rhai wedi bod yn dadlau ar hyd y canrifoedd fod 'cyfiawnder yn dod o flaen heddwch'. Os na fydd cyfiawnder, ni fydd heddwch. Dyma pan fod Cristnogion wedi medru derbyn y syniad o 'ryfel cyfiawn' h.y. rhyfel er mwyn sefydlu a gorseddu cyfiawnder. Ond yn nheyrnas Dduw mae heddwch a chyfiawnder yn un (*bydd cyfiawnder a heddwch yn cusanu*, meddai Salm 85) : dim ond ffordd ddi-drais, ffordd heddwch, all ddod a chyfiawnder i'r byd. Dyna'r unig ffordd i dorri cylchdro dieflig trais a gormes. Oherwydd dyma ffordd Iesu. Mae'r rhai sydd yn gweithio i adeiladu byd cyfiawn yn gweithio dros fyd o heddwch hefyd, fel.....

Arweinydd 2

I lawer o bobl , a Christnogion yn eu plith, delfryd i ymgyrraedd ati yw'r Gwynfydau neu obaith am deyrnas a ddaw rhyw ddydd, ond nad yw yma eto. Ond i ni sydd yma yn addoli heddiw mae ffordd arall o ddarllen, o fyfyrïo ac o ddiolch am y geiriau hyn : fe wireddwyd y gwynfydau, fe welwyd y deyrnas, fe ddaeth y geiriau yn wir ac yn fyw ac yn ffordd o fyw, *yn Iesu o Nasareth*. Dyna pam, o'i ddilyn, na allwn wneud dim ond cerdded a thystio i'r ffordd di-drais honno.

Arweinydd 1

Cael ein galw i **dystio** i'r ffordd hon a wnawn ac y mae tystio hir dymor yn wahanol iawn i fethiant byr dymor . Pan yr ydym ni a phan mae'r eglwys yn methu, neu hyd yn oed yn gwrthod, tystio i'r ffordd hon gan honni mai nid dyma'r *unig* ffordd i heddwch a thangnefedd ar y ddaear, yna ni allwn feddwl am ddim ond tristwch a galar yn Nuw ein Tad a'i gwestiwn : Ai yn ofer yr anfonais fy Mab i'ch plith ?

Dy dangnefedd 857

Gweddi 4

Arglwydd Dduw, Hollalluog,
maddau i' th Eglwys
ei chyfoeth ymhlith y tlodion,
ei hofn ymhlith yr anghyfiawn,
ei llwfrdra ymhlith y gorthrymedig,
maddau i ni, dy blant,
ein diffyg hyder ynot ti,

ein diffyg gobaith yn dy deyrnasiad,
ein diffyg ffydd yn dy bresenoldeb,
ein diffyg ymddiriedaeth yn dy drugaredd.
Adfer ni i' th gyfamod â' th bobl,
dwg ni i wir edifeirwch.
Dysg ni i dderbyn aberth Crist;
a gwna ni'n gryf yn niddanwch dy Ysbryd Glân.
Dadfeilia ni lle 'rydym yn falch.
Adeilada ni lle 'rydym yn wan.
Cywilyddia ni lle 'rydym yn ymddiried ynom ni ein hunain.
Rho enw newydd i ni lle 'rydym wedi colli'n hunain:
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Cyngor Eglwysi'r Byd.

Emyn 5


Y Fendith

Darperir y deunyddiau yma yn **rhad ac am ddim** gan Gymdeithas y Cymod. Os hoffech gynnwys **casgliad** er budd y Gymdeithas yn ystod eich oedfa heddwch, gallwch anfon siec sy'n daladwy i "Cymdeithas y Cymod" at y cyfeiriad isod. Diolch o galon ymlaen llaw.

Mae **Cymdeithas y Cymod** yn rhan o fudiad heddwch rhyngwladol IFOR (*International Fellowship of Reconciliation*), sef mudiad aml-ffydd o heddychwyr gyda chenhadaeth ysbrydol i atal gwrthdaro a chreu cyfiawnder ar sail eu cred yng ngrym cariad Duw. Mae'r aelodau yn ceisio byw bywyd di-drais, gan ymdrechu i greu trawsnewid personol, cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol.

Am ragor o wybodaeth neu i ymuno ewch i www.cymdeithasycymod.org.uk, neu cysylltu â ni ar 01286-830913 neu d/o 3 Tai Minffordd, Rhostryfan, Caernarfon, LL54 7NF.

CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU



Amcanion:

Mae Cymdeithas y Cymod yn fudiad rhyngwladol o bobl sy'n credu mewn grym cariad a'r gwirionedd i greu cyfiawnder a chymuned drwy gysegru ei hunain i ddilyn ffordd o fyw di-drais gweithredol fel modd i drawsnewid byd yn bersonol, cymdeithasol, economaidd, a gwleidyddol.

Rydw i yn cytuno gyda'r amcanion uchod a hoffwn ymuno â Chymdeithas y Cymod. Amgaeaf y tâl aelodaeth (£10 / £5 i bobl ddi-gyflog; sieciau yn daladwy i "Cymdeithas y Cymod".)

Enw:

Cyfeiriad:

Côd post:

Rhif ffôn:

E-bost:

Llofnod:

Dyddiad: